COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD GWENER, 11 EBRILL 2025 AM 11:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

A R Berrow J Llewellyn-Hopkins

Yn Bresennol yn Rhithwir

S J Griffiths J E Pratt

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jane Dessent | Cyfreithiwr |
| Mark Galvin | Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |

## 5. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Y caiff cofnodion y cyfarfod ar 22/08/2022 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad Gwneud y | 11 Ebrill 2025 |

| Penderfyniad | |
|---|---|

6. **Gwyriad Arfaethedig ar Lwybr Troed 17 Porthcawl**

| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Hawliau Tramwy adroddiad a oedd yn gofyn am awdurdodiad i wneud Gorchymyn yn unol ag Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar dir sy'n cydffinio â 15 The Burrows, Porthcawl, CF36 5AJ.<br><br>Esboniodd fod y llwybr troed presennol wedi'i nodi yn Atodiad B i'r adroddiad a bod man y gwyriad hefyd wedi'i nodi.<br><br>Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol:<br><br>- Ymgynghori – cafodd ymgyngoreion statudol yn ogystal ag aelodau lleol a chynghorau tref neu gymuned a'u safbwyntiau eu hystyried cyn y penderfyniad i wneud y gorchymyn<br><br>- Gwrthwynebiadau – daeth y rhain i law gan Gymdeithas Ceffylau Prydain<br><br>- Canllawiau Llywodraeth Cymru 2016 – fe'u hamlinellir yn adran 3.17 o'r adroddiad<br><br>- Budd y Cyhoedd – mae'r gwyriad yn bodloni budd y cyhoedd er gwaethaf cynnydd bach iawn mewn hyd.<br><br>- Goblygiadau Ariannol – y Datblygwr fydd yn talu costau'r broses a'r gwaith ar gyfer y gwyriad.<br><br>Gofynnodd Aelod pwy oedd yn berchen ar y tir a phwy oedd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy mai'r Datblygwr sy'n berchen ar y tir ac y bydd yn cynnal a chadw'r llwybr i ddechrau. Ar ôl i'r Tîm Hawliau Tramwy gymeradwyo'r llwybr gorffenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy:<br><br>1. Yn awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol i wneud y Gorchymyn angenrheidiol er mwyn mynd ati i ailalinio Llwybr Troed 17, Porthcawl, yn unol â'r llwybr a ddangosir ar Atodiad B i'r adroddiad, a chadarnhau'r Gorchymyn oni cheir gwrthwynebiadau neu sylwadau yn ystod y cyfnod rhagnodedig, neu os caiff unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau o'r fath eu tynnu'n ôl.<br><br>2. Yn awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i anfon y Gorchymyn ymlaen i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi benderfynu arno, os na chaiff unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law eu tynnu'n ôl.<br><br>3. Yn sicrhau na fydd y Gorchymyn/Gorchmynion yn cynnwys unrhyw ran o'r gwyriad a fydd yn defnyddio priffyrdd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw, gan fod hawliau cyhoeddus eisoes yn bodoli drostynt. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Ebrill 2025 |

## 7. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Ebrill 2025 |

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15.